Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn ar **11 Mawrth 2024 am 6.30 pm**

**PRESENNOL:-** Ei Theilyngdod y Maer Cyng. Elin Walker Jones (Cadeirydd), y Dirprwy Faer Cyng. Gareth Parry, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. John Wyn Jones, Cyng. John Wyn Williams, Cyng. L. Toth, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Nigel Pickavance,

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos F. Jones, (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig), a Sioned Jones (Cyfieithydd), Carwyn Davies (Gweinyddol).

**124/23 Ymddiheuriadau:**

Cyng. Steve Bell, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Delyth Russell, Cyng. Beverly Jones, Cyng. Meic Pattison.

**125/23 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL.**

Dim

**126/23 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Cafwyd cyflwyniad gan reolwr prosiect Adfywio Economaidd a Chymunedol Cyngor Gwynedd ar brosiect celfyddydol i Fangor. Amlinellwyd hyd a lled y prosiect a thrafodwyd amrywiol adeiladau posibl.

**127/23 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**

*Dosbarthwyd yr Adroddiad cyn y cyfarfod.*

Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod y prosiect gwella gwerth £140k ar y Stryd Fawr bellach bron wedi'i gwblhau ac er gwaethaf rhai rhwystrau disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd yr wythnos. Ar y cyfan, rydym wedi cael llawer o sylwadau cadarnhaol. Dywedwyd bod gwaith cynnal a chadw yng Nghoed Menai wedi mynd rhagddo'n dda. Bydd angen rhagor o waith yn ystod y misoedd nesaf. Cynhaliwyd cystadleuaeth Ymchwilwyr Ifanc Gogledd Cymru yn Neuadd y Penrhyn ddydd Sadwrn 23/03. Noddwyd y digwyddiad gan Network Rail a Banc Lloyds ac fe'i cefnogwyd gan Brifysgolion Caerhirfryn a Bangor. Mae S4C wedi dangos diddordeb mawr.

**PENDERFYNWYD:** Derbyn Adroddiad y Cyfarwddwr Dinesig.

**128/23 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 11 CHWEFROR 2024.**

Roedd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Chwefror wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r
Cynghorwyr.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**129/23 DERBYN Y CYNNIG O DDARLUNIAU GAN ARTISTIAID EWROPEAIDD**

Yn ystod ymweliad diweddar cynrychiolwyr o Soest, cafodd artistiaid gyfle i arddangos eu paentiadau yn Storiel. Cynigiwyd i dri o'r darluniau gael eu cyflwyno fel rhodd i Gyngor y Ddinas.

**PENDERFYNWYD:** derbyn y cynnig o ddarluniau gan artistiaid Ewropeaidd.

**130/23 CAIS AM GYMORTH ARIANNOL GAN Y NYTH I BRYNU DIFFIBRILIWR.**

Cysylltodd Y Nyth â'r Cyngor i ofyn am gyfraniad tuag at brynu diffibriliwr. Hysbyswyd y Cyngor bod map o'r diffibrilwyr sydd ar gael o amgylch Bangor yn cael ei baratoi.

**PENDERFYNWYD:** rhoi £1500 tuag at brynu diffibriliwr ar yr amod ei fod yn cael ei leoli i ganiatáu defnydd cyhoeddus.

**131/23 TRAFOD GWOBRAU RHYDDID DINAS BANGOR**

Yn ychwanegol i benderfyniad 94/23 bu'r Cyngor yn trafod ychwanegu dau enw arall at wobrau rhyddid y ddinas.

**PENDERFYNWYD:** dyfarnu Rhyddid Dinas Bangor i Brian Williams a Gwyn Mowll.

**132/23 CYMERADWYO ARGYMHELLION GWEITHDY AR GYFER PARATOI I DDATHLU BANGOR 2025.**

Trafodwyd penodi rhywun i weithio ar gynllunio a threfnu digwyddiadau ar gyfer dathliadau 2025 am ddiwrnod yr wythnos.

**PENDERFYNWYD:** penodi rhywun i weithio un diwrnod yr wythnos i'r Cyngor yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Dinesig. Awdurdodwyd Cyfarwyddwr y Ddinas i sefydlu gweithgor.

**134/23 TRAFOD CAIS AM HAWL MYNEDIAD YM MAES PARCIO'R PIER.**

Daeth aelod o'r cyhoedd sy'n berchen ar dŷ ar Ffordd Garth at y Cyngor yn ddiweddar. Roeddent am greu giât mynediad trwy faes parcio'r Pier i gefn eu heiddo er mwyn gallu parcio eu ceir.

**PENDERFYNWYD:** gwrthod y cynnig hwn gan fod y Cyngor yn ystyried y gallai caniatáu hynny achosi problemau cyfreithiol yn y dyfodol.

**135/23 CEISIADAU CYNLLUNIO**

i. C24/0158/11/TR – Tir yn Fferm Bryniau , Minffordd , Bangor. Cais i osod polyn foltedd isel sengl i godi llinell uwchben.

**Dim Gwrthwynebiad**

ii. C24/0105/11/DT – 5-7 Lon Glan Môr, Bangor – Dymchwel yr adeilad presennol a chodi estyniad to fflat.

**Dim Gwrthwynebiad**

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm**

DIPRWY GYFARWYDDWR DINESIG – Llinos Fon Jones – DEPUTY CITY DIRECTOR